**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ELL 01-03(min)**

**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Iau 23 Ionawr 2003 | |
| **Amser:** | 9.00am | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd | |
| **Yn bresennol** | **Aelodau** | **Etholaeth** |
| | Gareth Jones **(Cadeirydd)** | Conwy |
| | Jane Davidson **(Gweinidog)** | Pontypridd |
| | Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| | Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| | Cynog Dafis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| | Janice Gregory | Ogwr |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| | Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| | **Swyddogion** | |
| | Richard Davies | Cyfarwyddwr, Adran Addysg a Hyfforddiant |
| | Elizabeth Taylor | Pennaeth, Rheolaeth Ysgolion |
| | Elizabeth Williams | Pennaeth, Tîm Polisi Ieuenctid |
| | Keith Davies | Pennaeth, Safonau a Pherfformiad |
| | Derek Adams | Pennaeth, Addysg Uwch |
| | Mike Harper | Pennaeth, Addysgu ac Arweinyddiaeth |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Pam Boyd | Cyfarwyddwr, Addysg a Mwy |
| Tracey Pike | Rheolwr Datblygu, Addysg a Mwy Cymru |
| Peter Griffin | Cadeirydd, Llywodraethwyr Cymru |
| Colin Thomas | Cyfarwyddwr, Llywodraethwyr Cymru |
| Neil Harries | Cyfarwyddwr, Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru |
| Ian Morgan | Dirprwy Gyfarwyddwr, Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd.

1.2 Nododd y Cadeirydd ymddiheuriad oddi wrth Huw Lewis. Ymddiheurodd Jonathan Morgan am fethu â bod yn bresennol yn ystod ail hanner y cyfarfod.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau bod Grp Cyfeirio Ysgol y Dyfodol wedi cwrdd am yr eildro a chafwyd trafodaeth werthfawr a buddiol. Y bwriad oedd eu bod yn cyflwyno adroddiad drafft yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 6 Chwefror 2003.

1.4 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau byddai Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn rhoi cyflwyniad byr er mwyn esbonio'u gwaith ar ddiwedd y cyfarfod ar 6 Chwefror.

1.5 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau bod y Pwyllgor Materion Cymreig yn bwriadu eu gwahodd i'w cyfarfod ar 11 Chwefror, mewn perthynas â'r archwiliad 'Empowering Children and Young People in Wales'.

1.6 Gwahoddwyd Aelodau hefyd i fynychu cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor gyda'r Cadeirydd ac undebau athrawon ar 13 Chwefror. Thema'r cyfarfod fyddai 'Ysgol y Dyfodol'. Byddai'n sesiwn y tu ôl i ddrysau caeëdig.

1.7 Gwahoddwyd Don Touhig, AS, Is-Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i annerch cyfarfod y Pwyllgor ar 13 Mawrth ynghylch papur gwyn diweddar Llywodraeth y DU ar gyllido addysg uwch.

1.8 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau ddatgan unrhyw fuddiant , yn unol â Rheol Sefydlog 4.5. Ni chafwyd rhai.

**Eitem Dau: Adroddiad Misol y Gweinidog**

**Papur: ELL 19-02(p.1)**

2.1 Roedd yr Aelodau wedi darllen adroddiad y Gweinidog a gwahoddwyd yr Aelodau gan y Cadeirydd i holi cwestiynau. Ceir crynodeb o'r materion a godwyd isod.

**Addysg Gorfforol (AG) a Chwaraeon Ysgol**

- Mewn perthynas â thaliadau i ysgolion ar gyfer cludiant i weithgareddau chwaraeon, gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd yn fwriad cynnal adolygiad neu ddarparu cymorth. Atebodd y Gweinidog mai mater i'r ysgolion unigol i benderfynu oedd hwn. Soniodd y Gweinidog bod enghraifft dda ar waith yn Aberystwyth lle'r oedd yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn cydweithio'n agos â'r Brifysgol.

**Arolwg Recriwtio Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (GTCW)**

- Dywedodd y Gweinidog ei bod yn croesawu'r arolwg, y cyntaf o'i fath yng Nghymru, a oedd yn darparu llawer o wybodaeth werthfawr mewn perthynas â recriwtio athrawon. Cydnabu y Gweinidog bod amrywiaethau rhanbarthol yn bodoli a bod rhai meysydd i bryderu yn eu cylch, ond condemniodd y cyfryngau am y sylw anghyfrifol a roddwyd i’r mater a'u defnydd o iaith anaddas. Cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd argyfwng recriwtio athrawon yng Nghymru ar hyn o bryd.
- Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd hi'n teimlo bod y cynlluniau cymell recriwtio diweddar yn effeithiol o ystyried cyn lleied o ymgeiswyr a gafwyd ar gyfer swyddi mewn ysgolion uwchradd. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor bod ystod y cynlluniau cymell wedi’u hehangu a bod recriwtio yn y sector uwchradd wedi cynyddu tua 4%. Yn sgìl Deddf Addysg 2002, byddai benthyciadau myfyrwyr a hyfforddwyd mewn pynciau lle'r oedd prinder mewn addysg uwchradd ac sy'n parhau i ddysgu yn cael eu talu. Dywedodd y Gweinidog ei od yn bwysig bod y cymhellion yn canolbwyntio ar annog rhai sydd wedi cwblhau cyrsiau Hyfforddi Athrawon i gymryd swyddi dysgu ac i barhau i ddysgu.
- Wrth ymateb i gwestiwn mewn perthynas â thueddiadau ar gyfer recriwtio athrawon ac ar gyfer y nifer oedd yn gadael eu swyddi yn ystod y pum mlynedd cyntaf, dywedodd y Gweinidog y byddai'n briodol cynnwys arolygon tebyg i arolwg GTCW yn y cyfrifiad blynyddol, heb gynyddu'r pwysau biwrocrataidd ar athrawon.
- Mynegwyd diddordeb mewn llenwi swyddi dysgu 'trwy ddulliau eraill'. Cyfeiriwyd Aelodau at dabl 14 yn Atodiad D o'r adroddiad.
- Gofynnwyd i'r Gweinidog sut y byddai Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg, 'Iaith Pawb' yn

rhoi ystyriaeth i'r diffygion mewn recriwtio athrawon i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Atebodd y Gweinidog bod y bennod ar addysg yn 'Iaith Pawb' wedi ei diwygio yn unol â sylwadau'r Pwyllgor.

- Cyfeiriwyd at adroddiad Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr (GTCE) a oedd yn nodi bod traean o'r athrawon yn Lloegr yn gadael y proffesiwn yn ystod pum mlynedd cyntaf eu gyrfa. Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd unrhyw ffigurau tebyg ar gael ar gyfer Cymru. Atebodd y Gweinidog nad oedd ffigurau tebyg ar gael ond byddai'r GTCW yn adolygu'r materion mewn perthynas â Chymru a Lloegr.
- Mynegwyd pryder ynghylch y diffyg ceisiadau am swyddi penaethiaid a dirprwy benaethiaid. Cytunodd y Gweinidog bod angen mynd i'r afael â hyn a'i bod yn cynnal trafodaethau gyda'r GTCW mewn perthynas â hyn. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi'i chalonogi gan y galw am y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (NPQH).
- Gofynnwyd i'r Gweinidog a wyddai faint o athrawon oedd yn gymwys i gymryd cyfnod sabothol er mwyn hyfforddi i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n rhoi gwybod i'r Pwyllgor maes o law.
- Cyfeiriwyd at yr angen i sicrhau contractau hyblyg, gan gynnwys rhannu swyddi. Cytunodd y Gweinidog bod rhannu swyddi yn syniad gwych a dywedodd y byddai'n manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo’r syniad.
- Mynegwyd pryder bod y sector uwchradd yn teimlo’n ynysig. Anghytunodd y Gweinidog â hyn gan ddweud bod nifer yr ymatebion cadarnhaol i'r ymarfer ymgynghori Llwybrau Dysgu 14-19 wedi bod yn aruthrol.
- Tynnodd un o'r Aelodau sylw at y ffaith bod y wybodaeth mewn perthynas â nifer y myfyrwyr yn gadael eu cyrsiau Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) cyn eu cwblhau yn cyfeirio Gymru a Lloegr. Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai'n cyflwyno'r wybodaeth berthnasol i Gymru yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ceisio darparu'r wybodaeth yn y cyfarfod nesaf.

**Llwyth Gwaith Athrawon**

- Croesawodd yr Aelodau y cynigion i leihau pwysau gwaith athrawon ond gofynnwyd sut y gellid rhoi’r cynigion ar waith yn effeithiol mewn ysgolion bach. Dywedodd y Gweinidog bod hwn yn gytundeb hanesyddol a oedd yn adlewyrchu'r meysydd a ddatganolwyd a’r meysydd na ddatganolwyd. Byddai trefniadau'r contract yn sicrhau bod y system yn effeithiol, yn enwedig mewn ysgolion bach.
- Mynegwyd pryder nad oedd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon yng Nghymru (NUT Cymru) nac ychwaith UCAC wedi ymrwymo i’r cytundeb cenedlaethol ar gyfer lleihau pwysau gwaith athrawon. Er y teimlid bod y cytundeb yn gam pwysig ymlaen, teimla’r Aelodau y byddai'n llesteirio unrhyw lwyddiant. Dywedodd y Gweinidog bod yr NUT ac UCAC yn pryderu ynghylch statws y cynorthwywyr addysgu ar lefel uwch. Serch hynny, yr oedd y gwaith o ddiffinio rolau'r cynorthwywyr addysgu yn mynd yn ei flaen ac nid oedd y trafodaethau wedi dod i ben eto.
- Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai modd corlannu'r arian ar gyfer rhoi'r cynigion ar waith. Esboniodd y Gweinidog mai mater i'r Awdurdodau Addysg Lleol a'r ysgolion i gytuno arno oedd hwn.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog i ddarparu ystadegau ar nifer yr athrawon a fyddai'n gymwys i gymryd cyfnodau sabothol er mwyn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Y Gweinidog i ddarparu ystadegau ar nifer y myfyrwyr yng Nghymru sy'n gadael cyrsiau TAR cyn eu cwblhau.

**Eitem tri: Adolygiad Polisi: Ysgol y Dyfodol - Cyflwyniad gan Addysg a Mwy Cymru**

**Papur: ELL 01-03 (p.2)**

3.1 Cafwyd cyflwyniad PowerPoint ar y papur gan y cyflwynwyr. Diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu cyflwyniad a gwahoddwyd Aelodau i holi cwestiynau. Cododd y materion canlynol:

- Gofynnwyd i'r cyflwynwyr sut y gellid cael rhieni a phobl ifanc o ardaloedd difreintiedig sydd heb ymrwymiad i addysg i ymrwymo i Ddysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol. Clywodd y Pwyllgor bod Addysg a Mwy yn gwneud llawer o waith yn ardaloedd difreintiedig y DU. Roedd yn helpu i ddarparu cyfleon amrywiol i bobl ifanc fwynhau a llwyddo ynddynt. Rhoddodd ysgolion adborth bositif gan ddweud bod rhai disgyblion heb ymrwymiad wedi dod yn fwy ymroddedig yn yr ysgol o ganlyniad i gymryd rhan yn y cynllun Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol. Roedd y rhieni a oedd wedi cael profiadau negyddol yn yr ysgol yn teimlo'n fwy hyderus yn dod i'r ysgol y tu allan i oriau'r ysgol. Roedd yn bwysig gwneud i'r gymuned leol ddeall gwerth dysgu. Roedd rhywfaint o'r gwaith effeithiol a wnaethpwyd mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf wedi golygu bod rhieni yn cymryd diddordeb yn eu hiechyd a'u lles emosiynol eu hunain a'u plant. Gellid cyfuno gwasanaethau Iechyd, Addysg ac Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol yn yr ysgol.
- Roedd rhywfaint o bryder bod dysgu o bob math yn rhy ffurfiol ac na fyddai gan bobl ifanc lawer o amser hamdden. Clywodd y Pwyllgor ei bod yn bosib dysgu a chael hwyl ar yr un pryd. Roedd un rhaglen, 'Gofal i Fyfyrwyr' yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddilyn gweithgareddau neu ymlacio yn ystod yr oriau wedi i'r ysgol ddod i ben.
- Gofynnwyd i'r cyflwynwyr sut yr oeddynt yn monitro a gwerthuso gweithgareddau oedd yn 'hwyl'. Wrth ymateb, dywedwyd ei bod yn anodd iawn eu gwerthuso, oherwydd natur anffurfiol Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol. Fodd bynnag, mae Rhaglen Genedlaethol Gwerthuso Cefnogaeth i Astudio, sydd ar gael ar wefan Addysg a Mwy, wedi nodi bod pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol yn fwy tebygol o lwyddo ar lefel TGAU.
- Roedd diddordeb mewn ffyrdd o gael bechgyn ifanc heb ymrwymiad i ail-ymrwymo. Clywodd y Pwyllgor ei bod yn hanfodol rhoi dewis o weithgareddau a oedd yn debygol o fod o ddiddordeb i fechgyn ifanc (e.e. 'go-certio').
- Awgrymwyd na fyddai gweithgareddau Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol a llunio partneriaethau yn addas ar gyfer pob ysgol ac awgrymwyd cynnal prosiectau peilot. Teimlai'r cyflwynwyr bod peilota'n digwydd eisoes a gwelwyd hyn fel mesur tymor byr. Teimlwyd y dylai unrhyw bolisi ar Ddysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol fod yn hirdymor er mwyn newid y ffordd y mae pobl

yn teimlo ac yn meddwl.

- Roedd rhywfaint o ddiddordeb a oedd y math o waith yr oedd Addysg a Mwy yn digwydd hefyd mewn gwledydd eraill. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb i glywed bod gan yr Unol Daleithiau enghreifftiau gwych o ysgolion sy'n cynnig gwasanaeth llawn (cymunedol) mewn ardaloedd difreintiedig. Roedd Sgandinafia hefyd wedi gwneud gwaith rhagorol. Roedd yr Alban wedi datblygu ei model o ysgolion cymunedol a Lloegr wedi llunio model o ysgol estynedig: 'Schools Plus' mewn 25 o AALl. Dywedodd y cyflwynwyr hefyd bod enghreifftiau o arfer gorau yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion yn Aberpennar, Pen-y-Dre a Glyncoed.
- Roedd gan un Aelod ddiddordeb mewn gwybod sut i gael cydbwysedd rhwng y cwricwlwm ac annog dysgu hyblyg. Roedd y cyflwynwyr yn cydnabod pwysigrwydd gallu pobl ifanc i feddwl yn annibynnol. Roedd angen sylfaen graidd o ddysgu: cwricwlwm sylfaenol a dywedwyd bod y cwricwlwm eisoes yn fwy agored nag y bu. Roedd yn hanfodol cael cydbwysedd rhwng yr angen am gwricwlwm craidd a dysgu anffurfiol.
- Cafodd Addysg a Mwy wahoddiad gan y Gweinidog i ddiweddaru'r cynllun Venn ar dudalen 3 o'r papur i gynnwys elfen ar Ymestyn Hawliau ac un arall ar Lwybrau Dysgu 14-19 ac i gyflwyno papur ar sut yr oedd yn berthnasol i agenda Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol a chyd-destun defnyddio ysgolion o fewn y gymuned. Dywedodd y cyflwynwyr y byddent yn adrodd yn ôl i'r Gweinidog a'r Pwyllgor.

**Pwynt Gweithredu**

- Addysg a Mwy i ddiweddaru'r cynllun Venn ar dudalen 3 o'u papur ac i adrodd yn ôl i'r Gweinidog a'r Pwyllgor.

**Eitem Pedwar: Adolygiad Polisi: Ysgol y Dyfodol - Cyflwyniad gan Lywodraethwyr Cymru**

**Papur: ELL 01-03 (p.3)**

4.1 Cafwyd cyflwyniad ar lafar gan y cyflwynwyr, gan gyfeirio at eu papur. Yna cafodd yr Aelodau wahoddiad gan y Cadeirydd i holi cwestiynau. Cododd y materion a ganlyn yn y drafodaeth:

- Roedd diddordeb yn y ffordd yr oedd Llywodraethwyr Cymru yn gweld swyddogaeth llywodraethwyr ysgolion a chyrff llywodraethu yn y dyfodol. Teimlai'r cyflwynwyr bod y cyrff llywodraethu yn adlewyrchu diddordebau'r gymuned, o ran y model o ysgol gymunedol a gyflwynwyd yn eu papur. Roedd cefnogaeth ymarferol a hyfforddiant priodol i lywodraethwyr ysgol yn hanfodol.
- Roedd rhywfaint o drafodaeth ynglyn â'r cydbwysedd rhwng cynnal strwythur ac annog dyfeisgarwch yn y cwricwlwm. Dywedodd y cyflwynwyr wrth y Pwyllgor fod y Cwricwlwm

Cenedlaethol wedi helpu i sicrhau cynnydd a pharhad, yn enwedig yn y sector cynradd. Fodd bynnag, gellid cael mwy o hyblygrwydd yn y cwricwlwm i blant hyn.

- Gofynnwyd i'r cyflwynwyr am swyddogaeth cyrff llywodraethu o ran ystyried y posibilrwydd o ffedereiddio, fel dewis arall yn lle cau ysgol, gan fod pobl ar adegau'n cadw'n dryw iawn i'w hysgol leol. Gwelai Llywodraethwyr Cymru yr ysgolion fel canolbwynt un sefydliad - canolfan o gyfleon sy'n ehangu i ddysgwyr yn y gymuned ehangach.
- Teimlai rhai Aelodau bod y berthynas rhwng cyrff llywodraethol a chynghorau ysgolion yn bwysig. Cytunodd y cyflwynwyr bod y cyfraniad gan y dysgwyr eu hunain yn werthfawr iawn a'u bod yn gallu rhoi safbwynt unigryw ar y profiad o ddysgu yn yr ysgol. Roedd yn bwysig bod gan ddisgyblion y sgiliau angenrheidiol a'u bod yn barod i fod yn aelodau o gynghorau'r ysgolion.
- Roedd rhywfaint o bryder y gallai datblygu'r cynigion ar gyfer canolfannau dysgu ysgolion a chymunedau ymyrryd â chyfleusterau cymunedol presennol neu eu tanseilio. Clywodd y Pwyllgor y gallai'r ysgol gymunedol ddarparu cefnogaeth/sgiliau ychwanegol i'r rhai hynny a fyddai eu hangen. Fodd bynnag, byddai'n rhaid nodi'r anghenion a byddai'n rhaid ymgynghori â'r gymuned leol i leihau'r risg o gynnig darpariaeth sy'n bodoli eisoes.
- Dywedodd y Gweinidog ei fod yn bwysig i gyrff llywodraethu ddefnyddio y pwerau newydd a roddwyd iddynt yn Neddf Addysg 2002 i ddarparu cyfleusterau cymunedol. Yr her i Lywodraethwyr Cymru fyddai perswadio cyrff llywodraethu i ddefnyddio'r pwerau hyn. Byddai'n rhaid i Lywodraethwyr ymgynghori â'r AALl ynghylch eu cynlluniau i ddefnyddio'r pwerau hyn.
- Roedd rhywfaint o ddiddordeb yn y ffordd yr oedd Llywodraethwyr Cymru yn gweld swyddogaeth athrawon yn y dyfodol. Dywedodd y cyflwynwyr wrth y Pwyllgor fod pobl yn hyfforddi fel athrawon gan eu bod yn ymroddedig iawn i'r proffesiwn. Ni ddylid anghofio y dylanwad sydd gan athrawon fel pobl i'w hefelychu: roedd athrawon yn ganolog i'r broses o ddysgu. Y grwp pwysicaf yr oedd yn rhaid i athrawon ymwneud â hwy hefyd oedd rhieni dysgwyr.

4.2 Oherwydd prinder amser, awgrymodd y Cadeirydd bod Llywodraethwyr Cymru yn cyflwyno papur ychwanegol i'r Pwyllgor, a oedd yn ymdrin â'r materion ychwanegol a godwyd gan yr Aelodau. Dywedodd y cyflwynwyr y byddent yn cyflwyno'r papur hwn maes o law a diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu cydweithrediad.

**Pwynt Gweithredu**

- Llywodraethwyr Cymru i ddarparu papur ychwanegol i'r Pwyllgor ar faterion ychwanegol a godwyd gan yr Aelodau.

**Eitem Pump: Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru**

5.1 Cafwyd cyflwyniad Powerpoint gan Neil Harries ac Ian Morgan i Aelodau'r Pwyllgor, gan roi amlinelliad o waith y Grid Cenedlaethol hyd yma. Yn ystod y cyflwyniad cafwyd cyfle i weld gwefan y Grid. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r wefan yn cael ei lansio'n swyddogol ar ddydd Iau 30 Ionawr yng Ngwesty Dewi Sant, Caerdydd. Cafodd Aelodau'r Pwyllgor wahoddiad gan y Gweinidog i fynychu'r lansiad.

5.2 Awgrymodd y Cadeirydd bod yr Aelodau'n ysgrifennu at y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru gydag unrhyw gwestiynau am eu gwaith.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Yr aelodau i ysgrifennu at y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru (trwy'r Clerc) gydag unrhyw gwestiynau sydd heb eu hateb.

**Eitem Chwech: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**Papur: ELL 19-02(min)**

6.1 Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2002 gan yr Aelodau.

**Nododd yr aelodau y papurau canlynol:**

Crynodeb o'r ymateb i'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad Polisi: Ysgol y Dyfodol

**Papur: ELL 01-03 (p.4)**

Blaenraglenni Gwaith Manwl y Pwyllgorau Pwnc

**Papurau: ELL 01-03 (p.5 i p.10)**